

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 17^{eg} MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Will G Roberts - Cadeirydd
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Rory Francis

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym
Annwen Daniels

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Argymhellion Cyfarfod 18^{fed} Chwefror

Oherwydd amgylchiadau personol y Clerc nid oedd argymhellion mis Chwefror i law erbyn y Cyfarfod Arferol ar 10fed Mawrth 2016.

Argymhell: Cytunwyd ar gynnwys yr argymhellion ac iddynt gael eu derbyn fel rhai cywir yng Nghyfarfod Arferol o'r Cyngor Tref 14^{eg} o Ebrill 2016

2. Caeau Chwarae

Unwaith eto ni chafwyd adroddiad yr archwiliwr ar gyflwr y caeau chwarae mewn pryd at y cyfarfod. Mae'n hollol bwysig bod yr archwiliad yn cael ei wneud yn fisol er mwyn diogelwch plant.

Argymhell: I drafod y swydd ym mis Ebrill pan fydd trafodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau mae'r Cyngor Tref yn ei brynu.

3. Parc Sglefrio

Cafwyd gwybodaeth bod y Parc Sglefrio wedi cael ei lanhau erbyn hyn. Does byth gopi o yswiriant Angry Scones Racing Team wedi dod i law, felly bydd raid i'r Cyngor ystyried os ydynt yn ymddwyn yn groes i'w prydles. Does byth gwybodaeth wedi dod i law parthed pa bryd fydd goleuadau yn cael cyflenwad trydan. Cafwyd amcan bris am loches ieuencid gan gwmni G L Jones wedi ei osod mewn concrit sef - £7321.01, mi fydd arian grant yn dod gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tan tuag at y gost hon.

Argymhell: I dderbyn y wybodaeth ac i holi unwaith eto pa bryd fydd cyflenwad trydan ar gael i'r goleuadau. I dderbyn pris cwmni G L Jones ar gyfer lloches wedi ei osod mewn concrit a gofyn iddo gael ei osod cyn gynted â modd. I gadarnhau gyda'r Angry Scones Racing Team nad ydynt i ddefnyddio'r Parc Sglefrio.

4. Y Parc

Cafwyd gwybodaeth bod y siglen 'nyth deryn' yn y Parc yn boblogaidd iawn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â defnydd y cwrs golf gwirion yn dilyn cael mwy o wybodaeth gan gwmni o'r Amwythig. Teimlwyd bod y cwrs a gynigwyd gan y cwmni yma yn fwy addas i anghenion yr ardal na'r cwrs gan gwmnïau eraill oedd wedi gyrru amcan bris.

Argymhell: I archebu'r cwrs golf gwirion gan gwmni Shropshire Leisure Fabrications Ltd am bris o £6000 cyn gynted â modd.

5. **Gardd Encil**

Cafwyd gwybodaeth bod angen gwaith cynnal a chadw yng Ngardd Encil. Mae growt y llechi angen sylw a'r meinciau angen staen a'u hail osod i'r llawr.

Argymell: I gael pris am y gwaith.